# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# PWYLLGOR

# YMGYNGHOROL CYMRU

(A sefydlwyd o dan Adran 11 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995)

# 4ydd ADRODDIAD BLYNYDDOL

# 1999-2000

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL CYMRU – ADRODDIAD BLYNYDDOL 1999/2000**

## RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Yn unol â'r hyn a ragwelwyd, bu 1999/2000 yn flwyddyn o her a chyffro i'r Pwyllgor. Yn ddiau, y digwyddiad mwyaf nodedig oedd sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a nawdd ariannol uniongyrchol y Cynulliad i weithgareddau'r Asiantaeth yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol wedi gwylio esblygiad ein democratiaeth newydd â diddordeb mawr, a hoffwn longyfarch Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru am y ffordd bositif y mae wedi ymateb i'r arferion gwaith ac adrodd newydd. Mae'r Pwyllgor yn falch bod staff yr Asiantaeth wedi gallu creu cysylltiadau gwaith da gydag Aelodau unigol y Cynulliad, ei Bwyllgorau a'r Weithrediaeth. Ceir enghraifft o'r cydweithio a geir rhwng y ddau gorff yng nghyfraniad yr Asiantaeth i baratoi drafft y Cynulliad Cenedlaethol o Gynllun Datblygu Cynaliadwy i Gymru. Mae hybu a chymhwyso datblygu cynaliadwy yn holl bwysig i bob un ohonom wrth amddiffyn dyfodol ein hamgylchedd.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn wynebu llawer o bwysau newydd. Bydd cryn dipyn o ddyletswyddau yn codi yn sgil nifer o Gyfarwyddebau gan y CE, ac mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn cydnabod y pwysau ychwanegol yn llawn wrth bennu dyraniadau adnoddau'r Asiantaeth yn y dyfodol.

Yr wyf yn ddiolchgar am amser ac ymrwymiad fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgor, ac am y profiad a'r arbenigedd y maent wedi'i gynnig i'n trafodaethau.

Ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i staff Asiantaeth yr Amgylchedd sydd wedi cymryd rhan yn ein cyfarfodydd a'n hymweliadau â gwahanol safleoedd, a'r staff hynny sydd wedi cynorthwyo wrth wneud y trefniadau angenrheidiol. Yr wyf yn ddiolchgar hefyd i staff Is-adran Amgylchedd y Cynulliad Cenedlaethol am eu cefnogaeth gyson.

**YR ATHRO ERIC SUNDERLAND OBE**

**MEDI 2000**

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL CYMRU Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL PEDWERYDD ADRODDIAD BLYNYDDOL 1999/2000

## CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru ym mis Gorffennaf 1996 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan ofynion adran 11 o Ddeddf Amgylchedd 1995. Ar 1 Gorffennaf 1999, cafodd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru oedd yn gynwysiedig yn adran 11 o Ddeddf 1995 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Diben y Pwyllgor, fel ag yr amlinellwyd yn y Ddeddf, yw cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol, bellach y Cynulliad Cenedlaethol, ynglyn â materion yn effeithio ar, neu fel arall yn gysylltiedig â gweithredu swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. O dan ofynion y Ddeddf, mae gofyn i'r Pwyllgor gyfarfod unwaith y flwyddyn ac mae gan aelodau hawl i gael eu digolledi am gostau teithio a threuliau parod eraill.

## AELODAETH

Cafodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor eu penodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae cyfrifoldeb am unrhyw benodiadau yn y dyfodol yn gorwedd gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r aelodau yn gwasanaethu mewn cymhwyster personol ac maent yn adlewyrchu diddordebau perthnasol o fewn Cymru megis awdurdodau lleol, iechyd, diwydiant, atal llifogydd, amaethyddiaeth, pysgodfeydd, hamdden, cadwraeth, a'r sector gwastraff. Yr aelodau yw:-

Yr Athro Eric Sunderland (Cadeirydd)

Dr Elizabeth Andrews

Cynghorydd R Ian Brown

Cynghorydd Graham Court (aelod ex officio)

Dr George Karani

Mr Morlais Owens

Mr Bryan Riddleston

Mr Caerwyn Roberts

Dr David Russell

Ceir manylion bywgraffyddol am bobl aelod yn Atodiad A.

## CYLCH GWAITH

Ceir copi o Gylch Gwaith y Pwyllgor yn Atodiad B.

## CYFARFODYDD

Yn ystod 1999/2000, bu i'r Pwyllgor gyfarfod ar 3 achlysur. Ceir cofnod o bresenoldeb yr aelodau mewn cyfarfodydd yn Atodiad C.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 15 Mehefin 1999 yng Ngwesty Penmaenuchaf, Dolgellau, Gwynedd ac roedd yn cynnwys ymweliadau safle â:

- Tywyn, i edrych ar y gwaith gwarchodfeydd môr a wnaed gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac i gael golwg ar ddewisiadau'r Asiantaeth am reoli'r traethlin yn ardal yr Afon Dysynni i

arfordir Aberdyfi; a

- Chanolfan Ganwio Tryweryn, menter ar y cyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chymdeithas Ganwio Cymru sy'n dangos effeithiolrwydd yr Asiantaeth mewn cyfuno rheoli adnodd dwr gyda gweithgareddau hamdden. Cafodd yr aelodau hefyd gyflwyniad ar strategaeth yr Asiantaeth ar gyfer defnydd cynaliadwy o Lyn Tegid yn cynnwys ymdrechion i gael gwared o'r blodau algal sydd wedi cael effaith andwyol ar ecoleg y llyn.

Cynhaliwyd yr ail gyfarfod ar 15 Hydref 1999 ac fe'i mynychwyd gan Mr Peter Law AC, ar y pryd Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol, Cynllunio a'r Amgylchedd. Roedd y cyfarfod yn cynnwys cyflwyniad i Mr Law o adroddiad blynyddol y Pwyllgor am 1998/99.

Cynhaliwyd y trydydd cyfarfod ar 4 Chwefror 2000 ac roedd yn cynnwys ymweliad safle â:

- Safle Amersham Pharmacia Biotech yn Forest Farm, Caerdydd, lle y cafodd yr aelodau gyflwyniad gan Gyfarwyddwr y Safle ar y gwaith a wneir yn labordai'r cwmni, rôl Asiantaeth yr Amgylchedd mewn monitro gollyngiadau o'r safle, a'r buddsoddiad gwirfoddol a wneir gan y cwmni i dechnoleg a phrosesau newydd i ostwng gollyngiadau ymhellach.

## PYNCIAU TRAFOD A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR ELENI

Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y Pwyllgor ystod eang o bynciau trafod a oedd yn ymwneud â swyddogaethau'r Asiantaeth. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o drafodaethau'r Pwyllgor ac yn cynnig cyngor i Ysgrifennydd Amgylchedd ac Ysgrifennydd Amaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion sy'n cynnwys y broses gynllunio gorfforaethol, pysgodfeydd, asesiad yr Asiantaeth o raglen amgylcheddol Dwr Cymru dros y pum mlynedd nesaf, goblygiadau amgylcheddol Argae Bae Caerdydd ac effaith dip defaid ar ddyfrffosydd a chyflenwadau dwr preifat.

Ym mhob un o'r cyfarfodydd roedd Cyfarwyddwr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn rhoi'r diweddaraf am y pynciau trafod pwysig cyfredol. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr a oedd sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi effeithio

ar lwyth gwaith yr Asiantaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr bod pwysau gwaith wedi newid ac mae'r Pwyllgor yn dymuno cofnodi ei bryder am y pwysau gwaith cynyddol, yn enwedig ar uwch Reolwyr, ac ystyried bod angen i'r Asiantaeth asesu eu rhan yn barhaol er mwyn sicrhau nad yw swyddogion yn cael eu tynnu'n gyson o'u prif dasgau.

## CYNLLUNIO CORFFORAETHOL

**Trafodaeth:**

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 1999 cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar gais Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am gymorth grant ar gyfer 2000/01, fel ag y'i cyflwynwyd i Bwyllgor Llywodraeth Leol ac Amgylchedd y Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor bod y cais yn un teg ac yn adlewyrchu angen go iawn. Roedd yr achos a roddwyd gerbron am gyllid ychwanegol o £500k yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth fel asesu tir a heintiwyd yng Nghymru; cymorth gydag ystyried a gweithredu materion polisi gwastraff yng Nghymru; paratoi strategaeth wastraff; a gweithredu'r ymrwymiadau amgylcheddol Ewropeaidd newydd.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod o ganlyniad i adolygiad gwario cynhwysfawr y Llywodraeth ganolog ddiwethaf bod natur rowndiau bidio wedi newid yn sylweddol. Roedd Adrannau Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol wedi derbyn cyllidebau am y 2/3 blynedd ddilynol ac roedd unrhyw geisiadau a gyflwynwyd i'r Cynulliad bellach yn dod o fewn terfynau cyllideb y Cynulliad fel ag yr etholwyd gan y Senedd.

Un mater oedd yn peri cryn dipyn o bryder i'r Pwyllgor oedd y goblygiadau adnoddau i'r Asiantaeth yn ymwneud â'r toreth o ddeddfwriaeth CE oedd ar fin dod. Roedd yr Asiantaeth yn amcangyfrif y byddai'r pwysau gwaith ychwanegol yng Nghymru o ganlyniad uniongyrchol i weithredu Cyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd yr UE yn unig yn hafal i 17 o weithwyr llawn-amser. Er y gallai'r rhan fwyaf o hyn, mewn egwyddor, gael ei ad-ennill drwy daliadau, roedd y Pwyllgor yn cydnabod y byddai'n annhebyg y bddai'r Llywodraeth ganolog na'r Asiantaeth yn dymuno rhoi'r pwysau mawr ychwanegol yma yn llwyr ar ysgwyddau'r rhai sy'n talu.

**Cyngor:**

Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i fwydo i mewn i gynllun corfforaethol cyntaf Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Nododd y gallai'r ddeddfwriaeth gynyddol sy'n cael ei dwyn gan y CE olygu goblygiadau adnoddau difrifol i Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn gobeithio y byddai'r

Cynulliad Cenedlaethol yn dangos cydymdeimlad wrth ystyried yr agwedd hon o gais yr Asiantaeth am gyllid ychwanegol.

## STRATEGAETH PYSGODFEYDD ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD

**Trafodaeth:**

Yn ei gyfarfod ym Mehefin 1999, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad wedi ei seilio ar y crynodeb lefel uchel o strategaethau a ddefnyddiwyd i lywio gwaith Asiantaeth yr Amgylchedd i wella pysgodfeydd yng Nghymru. Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd y gallu, drwy'r fframwaith ddeddfwriaethol, i reoli ecsploetio stociau pysgod mudol yn fewndirol ac o amgylch yr arfordir. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod nifer o ffactorau eraill yn bwrw yn erbyn gallu stociau pysgod i gyrraedd eu gwir botensial o fewn dalgylchoedd afon. Mae rhai o'r prif bwysau sy'n bygwth gallu cynnal y cynefin gorau posibl yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, rheoli adnoddau dwr, llygredd gwasgaredig a lleol, draenio tir a gweithgareddau atal llifogydd a datblygiad trefol a gwledig. O ganlyniad i'r pwysau yma, lluniodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru Gynlluniau Gweithredu Eog i'w phrif afonydd eog a chynnyws, lle'r oedd yn briodol, anghenion brithyll i'r cynlluniau yna.

Roedd y Pwyllgor yn pryderi'n arbennig o glywed bod nifer o fylchau pysgod a adeiladwyd i hwyluso symudiad eog a brithyll i fyny'r afon wedi dangos canlyniad sâl a gofynnwyd i'r Asiantaeth ystyried cyflwyno rhaglen fonitro i fesur eu graddfeydd llwyddiant.

**Cyngor:**

Mae'r Pwyllgor yn falch i nodi datblygiad Cynlluniau Gweithredu Eog yr Asiantaeth. Serch hynny, mae'r Aelodau yn dal yn bryderus am berfformiad cyffredinol y bylchau pysgod ac er eu bod yn sylweddoli bod angen adnoddau ychwanegol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod astudiaethau effeithiolrwydd yn cael eu gwneud er mwyn cyfiawnhau unrhyw fuddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau o'r fath yn y dyfodol.

## GWAREDU DIP DEFAID

**Trafodaeth:**

Yn ei gyfarfod ym Mehefin 1999, derbyniodd y Pwyllgor bapur briffio a oedd yn amlinellu'r materion allweddol yn ymwneud â dipio defaid. Roedd hwn yn cynnwys crynodeb o'r

astudiaeth fonitro a wnaed ar y cyd rhwng y Cynulliad Cenedlaethol, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol i asesu effaith dip defaid ar gyflenwadau dwr preifat. Er mai ardal gyfyngedig o dir mynydd Cymru a gafodd sylw'r rhaglen fonitro, daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod heinitio cyflenwadau dwr preifat gan gymysgedd dip defaid yn digwydd yn

achlysurol yn ystod y tymor dipio. O ganlyniad i'r astudiaeth, bu i Asiantaeth yr Amgylchedd dargedu ffermydd mewn dalgylchoedd yr oedd yn gwybod eu bod yn dioddef effeithiau pla-laddwyr dip defaid ar gyfer ymweliadau atal llygredd.

Mae gweithredu Rheoliadau Dwr Daear 1999 yn rhoi gofyniad ar ffermwyr sy'n dymuno gwaredu dip defaid i wneud cais i Asiantaeth yr Amgylchedd am awdurdod. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi derbyn 2860 o geisiadau am awdurdodiadau, nifer sylweddol uwch nag unrhyw un arall o ranbarthau'r Asiantaeth. Er bod y wybodaeth ar y ceisiadau yn anghyflawn mewn nifer o achosion, calonogwyd yr Asiantaeth gan ymateb mor dda o'r gymuned amaethyddol.

**Cyngor:**

Mae'r Pwyllgor yn dal i fod yn bryderus iawn am waredu dip defaid ac mae'n cefnogi ymdrechion Asiantaeth yr Amgylchedd i addsygu ffermwyr am eu harferion gwaredu mewn ymgais i hybu atal yn hytrach nag erlyn. Er mai dim ond nifer bychan o achosion a welwyd yn yr astudiaeth ar y cyd lle'r oedd y samplau yn uwch na'r crynoadau a ragnodwyd, roedd y Pwyllgor yn meddwl ei bod yn hanfodol bod ffermwyr yn dal i gael eu hatgoffa am y gofal sydd ei angen wrth ddefnyddio a gwaredu cymysgeddau dip defaid. Yn benodol, mae angen i ffermwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf i waredu gwastraff dip defaid yn ddiogel ar y tir fel ag yr amilnellwyd yng y Cod Arfer Amaethyddol Da ar gyfer Gwarchod Dwr a gynhyrchwyd gan MAFF/WOAD yn 1998. Fel ateb tymor hirach, dylid ystyried ei gwneud yn orfodol i brynu niwtraleiddwyr wrth brynu pob cynnyrch dip defaid. Byddai'r Aelodau hefyd yn annog Asiantaeth yr Amgylchedd i hybu adeiladu cyfleusterau dipio defaid cymunedol wedi eu cynllunio'n benodol gyda thanciau casglu ar gyfer gwaddodion ffo.

## ARGAE BAE CAERDYDD

**Trafodaeth:**

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau diweddar rheolaidd am sefyllfa reoleiddio'r Asiantaeth ar y materion technegol a chyfreithiol cymhleth oedd yn deillio o godi'r Argae a'r effeithiau a ragwelid ar yr amgylchedd. Roedd y materion hynny yn cynnwys perygl llifogydd,

ocsigeneiddio'r Bae, tynnu maetholion oddi yno, casglu a gwaredu trochion algâu, achosion llygredd uniogol a monitro pysgodfeydd. Prif bryder y Pwyllgor oedd bod trefniadau wrth gefn digonol mewn grym i sicrhau parhad rheoli'r Arage yn dilyn terfynu Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ar 31 Mawrth 2000 a throsglwyddo'r rhan fwyaf o'i swyddogaethau o safbwynt rheoli'r Bae i Gyngor Dinas Caerdydd. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am gael diweddariadau rheolaidd ar y pwnc hwn yn cynnwys arfarniad byr o'r gwersi a ddysgwyd .

**Cyngor:**

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi penderfyniad yr Asiantaeth i gyhoeddi Cyfarwyddyd i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ddad-bowndio'r llyn yn dilyn methiant y systemau awtomatig oedd yn rheoli'r llif-ddorau i weithio'n iawn. Os cyfyd sefyllfa debyg yn y dyfodol mae'r Pwyllgor yn ystyried ei bod yn hanfodol bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael cefnogaeth lawn y Cynulliad i sicrhau cynnal gwarchodfeydd digonol yn erbyn llifogydd ac nad yw'r amgylchedd leol yn dod o dan fygythiad.

## RHAGLEN AMGYLCHEDDOL DWR CYMRU

**Trafodaeth:**

Fel un oedd yn cymryd rhan yn adolygiad Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Dwr o brisiau dwr yn 2000-2005, adroddodd Asiantaeth yr Amgylchedd wrth y Pwyllgor am ei ystyriaethau o raglen amgylcheddol Dwr Cymru. Yn ei gyfarfod yn Chwefror 2000, trafododd y Pwyllgor gydag Asiantaeth yr Amgylchedd benderfyniadau terfynol y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'u heffaith ar raglen amgylcheddol Dwr Cymru. Roedd yr Asiantaeth yn poeni na fyddai nifer o welliannau amgylcheddol yn cael eu gwneud tan ddiwedd y cyfnod pum mlynedd a bod hyn yn creu perygl na fyddai rhai cynlluniau yn cael eu gweithredu o gwbl.

**Cyngor:**

Tra bod y Pwyllgor yn derbyn bod angen gosod rhai pethau ar ddiwedd rhaglen amgylcheddol Dwr Cymru er mwyn cadw'r cynnydd mewn costau dwr i'r lleiafswm, mae'n annog y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau nad oes yna lithriad yn y rhaglen a allai gael effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn poeni, o ganlyniad uniongyrchol i benderfyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, bod yna leihad amlwg wedi bod yng ngweithgareddau cadwraeth Dwr Cymru, sy'n gwrthdaro'n llwyr ag ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygiad

cynaliadwy.

## RHAGLEN Y CYFARFODYDD NESAF

Trefnwyd cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor ar 19 Mehefin a 27 Hydref 2000. Bydd cyfarfod mis Mehefin yn cael ei gynnal yn Saundersfoot a bydd yr eitemau i'w trafod yn cynnwys Strategaeth Amgylcheddol Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer 2020, Adolygiad Pysogdfeydd Eog a Dwr Croyw, a goblygiadau adnoddau deddfwriaeth CE ar swyddogaethau Gwarchod yr Amgylchedd yr Asiantaeth. Gobeithir y bydd Sue Essex, Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd, yn gallu dod i'r cyfarfod ym mis Hydref.

## Y FLWYDDYN SYDD I DDOD

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gofyn am Adolygiad o Reolaeth Ariannol a Pholisi bob pum mlynedd o'i holl Gyrff a Noddir gan y Cynulliad. Gwnaed adolygiad o'r Pwyllgor Ymgynghorol yn ystod diwedd 1999/00 gan Adran Gynllunio Ariannol y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd adroddiad o'r adolygiad, ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym Mehefin 2000. Bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth y Cynulliad i'w ystyried cyn bod penderfyniad terfynol ar argymhellion yr adroddiad yn cael ei wneud gan Ysgrifenyddion Amgylchedd a Chyllid y Cynulliad.

## MANYLION BYWGRAFFYDOL AELODAU'R PWYLLGOR

### YR ATHRO ERIC SUNDERLAND OBE, MA, PhD, LLD, FIBol

Eric Sunderland, Cymrawd y Sefydliad Bioleg, oedd Prifathro/Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Bangor, o 1984-85 ac Is-Ganghellor Prifysgol Cymru o 1989-91. Ef yw Cadeirydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru a'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru. O 1998-91 bu'n aelod o Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Aelod o Gyngor Darlledu Cymru y BBC yn 1996-99. Uwch Siryf Gwynedd 1998-99. Arglwydd Raglaw Gwynedd 1999- .

**DR ELIZABETH ANDREWS, MA, PhD**

Elizabeth Andrews yw Cadeirydd Insulating Components and Materials Cyf a chyfarwyddwr Tufnol Industries Cyf. Bu'n gwiethio am un mlynedd ar ddeg ar gadwraeth dyfrgwn yng Nghymru i Fywyd Gwyllt Ymddiriedolaeth Vincent ac mae'n cymryd rhan yn yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, Cymdeithas Frenhinol Cadwraeth Natur a hi yw Cadeirydd Pwyllgor RSPB Cymru. Mae Dr Andrews yn aelod o'r Cyngor Parciau Cenedlaethol, a chafodd ei phenodi i Fwrdd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ym mis Hydref 1997.

**CYNGHORYDD IAN BROWN, BA**

Mae Ian Brown yn aelod o Gyngor Dinas Caerdydd ac mae'n gyn Is-Lywydd Ewropeaidd Cymdeithas Dinasoedd Ailgylchu. Ef oedd Rheolwr Materion Allanol Rechem International o 1993-96 ac mae'n ymgynghorydd cyfathrebu amgylcheddol ar ei liwt ei hun. Ers Mehefin 1998, ef yw Cyfarwyddwr Gweithredol eco-centrig, Canolfan Amgylchedd Caerdydd.

**CYNGHORYDD GRAHAM COURT, OBE, YH**

Graham Court oedd Arweinydd Cyngor Bwrdeistef Sirol Caerffili a Dirprwy Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ef yw llefarydd y Gymdeithas ar Gynllunio, yr Amgylchedd a Rheoli Gwastraff. Bu'n Gadeirydd Grwp Rheoli Gwastraff Cymru Gyfan o 1985-95 ac ef yw Cadeirydd Pwyllgor Ymgymghorol Gwarchod Rhanbarthol Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru.

**DR GEORGE KARANI, BSc, MSc, PhD, FRMETS**

Mae George Karani yn Uwch Ddarlithydd/Darllenydd mewn Gwyddorau Amgylcheddol yng Nghyfadran Gwyddorau Iechyd Cymunedol, Sefydliad Prifysgol Cymru, Caerdydd. Mae'n aelod o'r Grwp Ymgynghorol Technegol i'r

Ffocws Cenedlaethol ar waith ar ymateb i achosion cemegol a goruchwylio effeithiau iechyd cemegau amgylcheddol.

**MR MORLAIS OWENS, BSc, CBiol, MIBIOL, FIWEM**

Morlais Owens oedd Prif Wyddonydd y cyn Awdurdod Dwr Cymru gyda chyfrifoldeb penodol dros reoli llygredd, pysgodfeydd a chadwraeth. Mae'n gyn-aelod o Bwyllgor Pysgodfeydd Môr y Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru. Roedd yn aelod o Bwyllgor Cynghori Eog yr Ysgrifennydd Gwladol cyn i'r Pwyllgor ddod i ben ar 31 Mawrth 1996.

**MR BRYAN RIDDLESTON, MA, FCMA, YH**

Mae Bryan Riddleston yn gyn ymgynghorydd i Celtic Group Holdings Cyf a chyn hynny ef oedd Prif Weithredwr y cwmni. Roedd yn aelod o Gyngor Cymru o'r CBI rhwng 1992 ac 1995 ac ar hyn o bryd mae'n aelod o'i Bwyllgor Amgylchedd. Mae ganddo brofiad mewn materion diwydiannol ac amgylcheddol lleol. Cafodd ei benodi i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ym mis Hydref 1997 a bu'n aelod o gyn Bwyllgor Ymgynghorol Awdurdod Afonydd Cenedlaethol Cymru.

**MR CAERWYN ROBERTS MBE, YH**

Mae Caerwyn Roberts yn ffermwr hunan-gyflogedig o Harlech, Gwynedd. Bu'n aelod o Bwyllgor Parc Cenedlaethol Eryri ers 1987 ac ef yw'r Cadeirydd ar hyn o bryd. Mae'n aelod o Bwyllgor RSPB Cymru, aelod cyngor Sioe Frenhinol Cymru ac ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Wledig Frenhinol Cymru. Bu'n aelod Cyngor Cymuned ers 1980.

**DR DAVID RUSSELL BSc MSc**

Mae David Russell yn batholegydd cemegol cwbl gymwys, sy'n gweithio ar hyn o bryd yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd. Mae ganddo ddiddordeb mewn tocsicoleg amgylcheddol ac mae ganddo gysylltiadau agos â chwmni bach sy'n datblygu pecynnau diagnostig amgylcheddol a gweithwyr ymchwil amgylcheddol ym Mhrifysgol Caerdydd.

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL CYMRU**

**CYLCH GWAITH**

**SWYDDOGAETH**

1. Sefydlir y Pwyllgor o dan Adran 11 o Ddeddf Amgylchedd 1995. Roedd Gorchymyn 1999 (Trosglwyddo Swyddogaethau) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (SI 1999 Rhif 672) yn trosglwyddo, o 1 Gorffennaf 1999, swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn adran 11 o Ddeddf 1995 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rôl y Pwyllgor yw cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion sy'n effeithio ar, neu fell arall yn gysylltiedig â, gweithredu swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru.

2. Bydd y Pwyllgor, wrth gynnig cyngor, yn ystyried prif gyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r Asiantaeth. Mae'r cyfrifoldebau yma ar gyfer y polisi cyffredinol ar weithgareddau'r Asiantaeth yng Nghymru a goruchwylio eu holl swyddogaethau fel y cânt eu cyflawni yng Nghymru.

3. Amcan y Pwyllgor fydd rhoi cyngor amserol, effeithiol ac ymarferol i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w alluogi i gymryd golwg eang o'r materion y mae ganddo gyfrifoldeb trostynt mewn perthynas â'r Asiantaeth. Dylai cyngor y Pwyllgor helpu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud yn siwr bod yr Asiantaeth yn gweithredu yn effeithiol yng Nghymru. Dylai cyngor y Pwyllgor hefyd gynorthwyo'r Cynulliad Cenedlaethol wrth ddatblygu neu ymateb i gynigion polisi sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Asiantaeth.

4. Dylai'r Pwyllgor gymryd i ystyriaeth y prif nodau, amcanion a dyletswyddau y mae'n ofynnol ar yr Asiantaeth eu cyflawni o dan ddarpariaeth Deddf Amgylchedd 1995, a pha mor effeithiol y mae'r rhain yn cael eu cyflawni yng Nghymru.

5. Rôl y Pwyllgor fel rheol fydd ystyried materion strategol a rhai sy'n ymwneud â pholisi. Ni fydd yn ceisio dyblygu gwaith y pwyllgorau rhanbarthol eraill y mae'r Ddeddf Amgylchedd yn darparu ar eu cyfer na chymryd rhan uniongyrchol mewn gwaith rheoli dydd-i-ddydd neu waith achos.

6. Bydd y Pwyllgor yn arbennig yn adolygu ac ystyried cynlluniau a chyflawniadau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. Bydd yn ystyried cynlluniau corfforaethol a strategol yr Asiantaeth yng Nghymru, a bydd yn rhoi sylwadau ac argymhellion priodol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Gall y rhain gynnwys argymhellion mewn perthynas â blaenoriaethau a/neu dargedau i'r Asiantaeth yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor yn adolygu cynnydd Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru drwy broses adrodd yn ôl blynyddol yr

Asiantaeth. Bydd yn ystyried mentrau polisi ac argymhellion a roddwyd gerbron gan yr Asiantaeth, neu'r rheiny a gynigir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Llywodraeth ganolog sy'n effeithio ar waith yr Asiantaeth, ac yn asesu eu goblygiadau i Gymru.

7. Bydd y Pwyllgor yn cael mynediad rheolaidd at yr Ysgrifennydd Cynulliad priodol ac fel arfer bydd disgwyl iddo'u cwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn a/neu pan fo materion pwysig o sylwedd yn codi. Fel arall, bydd cyngor y Pwyllgor i'r Cynulliad yn cael ei gyfleu gan ei gyfarfodydd, pryd y bydd swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol yn bresennol, a gan adroddiadau/papurau a gyflwynwyd gan neu ar ran y Pwyllgor i Bwyllgor Gwaith y Cynulliad Cenedlaethol.

8. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn adolygu ei ystyriaethau a chynnydd yr Asiantaeth yng Nghymru. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno gan swyddogion i'r Ysgrifennydd Cynulliad priodol, a fydd fel arfer yn gofyn am sylwadau ar yr adroddiad gan Gadeirydd Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd copïau o'r adroddiad yn cael eu rhoi yn Llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol a'u dosbarthu i aelodau y Pwyllgor Pwnc Cynulliad priodol.

9. Bydd swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth i'r Pwyllgor gan gysylltu fel y bo angen â swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru.

10. Fel arfer disgwylir i'r Pwyllgor gyfarfod tua 3 neu 4 gwaith y flwyddyn.

**STRWYTHUR**

11. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys cyfanswm o tua 10 o aelodau. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn annibynnol ar yr Asiantaeth.

12. Bydd yr aelodaeth yn adlewyrchu diddordebau perthnasol o fewn Cymru megis awdurdodau lleol, diwydiant, amaethyddiaeth, pysgodfeydd, hamdden, cadwraeth, atal llifogydd a'r sector gwastraff. Bydd diddordebau eraill o fewn dyletswyddau swyddogaethol yr Asiantaeth yn cael eu hadlewyrchu yn yr aelodaeth fel y bo'n briodol.

13. Bydd Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd Cymru fel arfer yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor ar sail ex-officio.

14. Bydd y Pwyllgor fel arfer yn gwahodd Aelod Bwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a

Chyfarwyddwr Cymru, gyda staff ategol fel y bo angen, i ddod i'r cyfarfodydd a llywio ei ystyriaethau.

**COFNOD O BRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

| **AELOD/DYDDIAD** | **15.6.99** | **15.10.99** | **4.2.00** |
|---|---|---|---|
| Yr Athro Eric Sunderland | / | / | / |
| Dr Elizabeth Andrews | / | / | / |
| Cynghorydd Ian Brown | / | / | / |
| Cynghorydd Graham Court* | / | / | / |
| Dr George Karani | / | / | / |
| Mr Morlais Owens | / | / | / |
| Mr Bryan Riddleston | / | / | / |
| Mr Caerwyn Roberts | / | X | / |
| Dr David Russell | / | / | / |

* aelod ex-officio sy'n dod i gyfarfodydd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor

Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd Asiantaeth yr Amgylchedd